OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 105 (Cy.12)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau'r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud	- -	*20 Ionawr 2004*
Yn dod i rym	- -	*26 Ionawr 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, ac yn gweithredu drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl a Chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 26 Ionawr 2004.

Diwygio Rheoliadau'r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) 2001

2. Diwygir Rheoliadau'r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) 2001(**3**) yn unol â rheoliadau 3 i 12 o'r Rheoliadau hyn.

3. Yn rheoliad 1, ar ôl y gair "Chymru" yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosodir y geiriau "ac mewn perthynas â daliadau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn awdurdod cymwys perthnasol arnynt".

4. Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (Dehongli) —

(a) mewnosodir y diffiniad canlynol ar ôl y diffiniad o "awdurdod archwilio" —

> "ystyr "awdurdod cymwys perthnasol" yw'r awdurdod sy'n gweithredu fel yr awdurdod cymwys perthnasol o fewn ystyr "*relevant competent authority*" yn Rheoliadau Gweinyddu a Rheoli Integredig 1993(**4**);";

(b) yn y diffiniad o "cais" ar ôl y gair "gymorth" mewnosodir y geiriau "yn unol â rheoliad 3 neu reoliad 5A yn ôl y digwydd a hwnnw'n gais";

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) (O.S. 1999/2788) ("y Gorchymyn"). Mae pŵer y Cynulliad Cenedlaethol, fel corff sydd wedi'i ddynodi mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, i wneud rheoliadau sy'n gymwys i ddaliadau sy'n cynnwys tir sydd wedi'i leoli o fewn y Deyrnas Unedig ond sydd y tu allan i Gymru wedi'i gadarnhau gan baragraff 2(b) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) O.S. 2001/424 (Cy.18).

(**4**) O.S. 1993/1317, a ddiwygiwyd gan O.S. 1994/1134, 1997/1148, 1999/1820 a 2000/2573.

(c) yn lle'r diffiniad o "cyfnod penodedig" mewnosodir y diffiniad canlynol —

"ystyr "cyfnod penodedig" ("*specified period*"):

(i) o ran cais o dan reoliad 3, yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad derbyn ac sy'n gorffen pan ddaw'r cyfnod o bum mlynedd, o'r dyddiad y daw'r taliad cyntaf yn daladwy arno ar gyfer y parsel organig olaf sy'n destun y cais hwnnw, i ben; neu

(ii) o ran cais o dan reoliad 5A, yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad derbyn ac sy'n gorffen pan ddaw'r cyfnod o bum mlynedd, o'r dyddiad y daw'r taliadau hynny yn daladwy arno ar gyfer y parsel neu'r parseli organig sy'n destun y cais hwnnw, i ben;"

(ch) yn y diffiniad o "dyddiad derbyn" mewnosodir ar ôl y geiriau "rheoliad 3" y geiriau "neu reoliad 5A yn ôl y diwgydd";

(d) yn y diffiniad o "tystysgrif gofrestru", yn lle'r gair "pennu'r", mewnosodir y geiriau "pennu, lle bo'n gymwys, y".

5. Ar ôl rheoliad 5, mewnosodir y rheoliadau canlynol —

"**Cymorth Stiwardiaeth Organig**

5A.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheoliadau 5B a 5C, caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud taliadau cymorth blynyddol, a elwir cymorth Stiwardiaeth Organig, ar gyfer parsel organig, i unrhyw berson sy'n fuddiolwr o ran y parsel organig hwnnw, ar yr amod bod y buddiolwr, mewn perthynas ag unrhyw daliad ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol, wedi hawlio taliad ar gyfer y flwyddyn honno yn unol â rheoliad 9 ac wedi darparu unrhyw wybodaeth a thystiolaeth bellach ynglŷn â'r hawliad hwnnw y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfarwyddo i'w darparu.

(2) Rhaid gwneud taliadau o dan baragraff 1 i'r ceiswyr hynny sydd yn bodloni'r amodau cymhwyster a nodir yn rheoliad 5B.

(3) Rhaid penderfynu cyfradd y taliadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1), ac am ba hyd y byddant yn para, yn unol â rheoliad 5C.

(4) Bydd rheoliadau 6 i 20 o'r rheoliadau hyn, os yw'n gymwys, yn gymwys i gymorth Stiwardiaeth Organig sy'n daladwy yn unol â pharagraff (1).

Amodau Cymhwyster

5B.—(1) Mae'r amodau cymhwyster y cyfeiriwyd atynt yn rheoliad 5A (2) fel a ganlyn —

(i) bod ceiswyr yn gallu bodloni'r Cynulliad Cenedlaethol, neu y byddant yn gallu ei fodloni erbyn yr amser y mae unrhyw daliad cymorth i fod i gael ei wneud, bod y tir sydd wedi'i gynnwys yn eu cais yn bodloni gofynion paragraff (2);

(ii) bod rhaid cyflwyno cais am gymorth Stiwardiaeth Organig ar gyfer nid llai nag un hectar o dir;

(iii) mai'r ceisydd, ar ddyddiad cais am gymorth Stiwardiaeth Organig, yw perchennog neu denant y tir sy'n destun y cais a'i fod yn meddiannu'r tir hwnnw yn gyfreithlon;

(iv) nad yw'r ceisydd wedi'i anghymhwyso rhag cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol naill ai o dan Reoliad y Cyngor 1257/1999 neu o dan Reoliad y Comisiwn;

(v) yn achos ceiswyr a oedd gynt yn fuddiolwyr cymorth o dan reoliad 3, y cydymffurfiwyd â'r amodau cymhwyster i gael cymorth o dan y rheoliad hwnnw er bodlonrwydd y Cynulliad Cenedlaethol;

(vi) bod y ceisydd yn rhoi'r ymrwymiadau a grybwyllir ym mharagraff (3) i ategu'r cais.

(2) Y gofynion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1)(i) ynglŷn â'r tir sydd wedi'i gynnwys mewn cais am gymorth Stiwardiaeth Organig yw:

(i) bod yr holl dir o'r fath yn hollol organig a'i fod wedi parhau i fod yn hollol organig ers i'r gwaith gwreiddiol o'i drosi gael ei gwblhau; a

(ii) bod pob cymorth o'r fath, lle'r oedd proses trosi'r tir hwnnw wedi denu cymorth gynt o dan reoliad 3, wedi dod i ben.

(3) Mae'r ymrwymiadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1)(vi) fel a ganlyn —

(i) cyn bod cymorth Stiwardiaeth Organig yn cael ei hawlio ar gyfer unrhyw barsel organig, bod tystysgrif gofrestru ar gyfer y parsel organig hwnnw yn cael ei darparu i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(ii) ar gyfer pob parsel organig sydd wedi'i gynnwys mewn cais o dan reoliad 5A(1), bod tystysgrif gofrestru ddilys y parseli hynny a'u statws hollol organig yn cael eu cadw drwy gydol y cyfnod penodedig;

(iii) bod y tir sy'n destun y cais yn cael ei ffermio, drwy gydol y cyfnod penodedig, yn unol â'r cynigion sydd wedi'u nodi yn y cais o dan reoliad 5A(1) ac yn unol â safonau UKROFS a'r safonau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2;

(iv) bod rhaid sicrhau bod unrhyw dda byw organig neu dda byw sy'n cael eu trosi ac sy'n cael eu cadw ar y tir sydd wedi'i gynnwys mewn cais o dan reoliad 5A(1) yn cael eu cadw, drwy gydol y cyfnod penodedig, yn unol â safonau UKROFS; a

(v) os yw'r ceisydd, ar ddyddiad y cais o dan reoliad 5A(1), wedi cyflwyno ffermio organig ar ran o'r daliad ac eithrio'r rhan sy'n destun y cais, ei fod yn sicrhau bod y rhan arall yn cydymffurfio, drwy gydol y cyfnod penodedig, â safonau UKROFS ac yn parhau â ffermio organig ar y rhan arall honno o'r daliad yn unol â safonau UKROFS a'r safonau a nodir yn Atodlen 2.

Penderfynu swm y cymorth Stiwardiaeth Organig a'r cyfnodau y mae cymorth yn cael ei dalu ar eu cyfer

5C.—(1) Ar gyfer pob parsel organig sy'n destun cais o dan reoliad 5A (1) rhaid gwneud taliadau ar gyfer y cyfnod penodedig.

(2) Ni chaniateir i gymorth Stiwardiaeth Organig fod yn daladwy ar gyfer cais ar gyfer unrhyw gyfnod cyn y dyddiad derbyn.

(3) Caniateir i gais am gymorth Stiwardiaeth Organig gael ei dynnu'n ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y ceisydd ar unrhyw adeg cyn bod y cais yn cael ei dderbyn gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(4) Rhaid cyfrifo taliadau o dan reoliad 5A(1) yn unol â Rhan 1A o Atodlen 1.”.

6. Yn rheoliad 6 (Cyfyngiadau ar dderbyn ceisiadau), ym mharagraff 1, ar ôl y gair “cais”, mewnosodir y geiriau canlynol “o dan reoliad 3”.

7. Yn rheoliad 7 (Cyfyngiadau ar dalu cymorth), ym mharagraff (4), ar ôl y gair “cymorth” mewnosodir y geiriau “o dan reoliad 3”.